# CWILT TEILIWR WRECSAM

## Y STORI





Mae Cwilt Teiliwr Wrecsam yn gwilt neu'n gwrlid a gafodd ei greu gan James Williams rhwng 1842 ac 1852 yn ystod oes Fictoria. Roedd James yn ben-deiliwr a oedd yn byw yn 8 Camfa'r Cŵn, Wrecsam.

Cafodd ei greu allan o 4,525 o ddarnau o ddefnydd a oedd fwy na thebyg yn dorion o wisgoedd milwrol. Cafodd pob darn ei bwytho â llaw a hynny, credwch neu beidio, yng ngolau cannwyll!

Mae'r cwilt yn cynnwys golygfeydd o'r Beibl, fel Adda yn enwi'r anifeiliaid, Cain ac Abel, Jona a'r morfil ac Arch Noa. Mae'r cwilt hefyd yn cynnwys symbolau o Gymru (cennin), Lloegr (rhosyn), yr Alban (ysgallen) ac Iwerddon (meillionen). Fe welwch chi hefyd Bont Menai a Thraphont Cefn -tirnodau trawiadol iawn yn y cyfnod. Yn ddiddorol iawn, mae yna hefyd lun o bagoda Tsieineaidd.

Roedd y cwilt yn grefftwaith arbennig a chafodd ei arddangos yn Arddangosfa Trysorau Celfyddydol Gogledd Cymru yn Wrecsam yn 1876 ac yn Arddangosfa o'r Ymerodraeth Brydeinig yn Wembley yn 1925.

Gwerthwyd y cwilt gan deulu James Williams i Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn y 1930au. Mae'r cwilt yn ddiwylliannol bwysig i Gymru ac yn enghraifft brin o gelfyddyd werin Gymreig.

Mae'r cwilt yn parhau i ysbrydoli artistiaid hyd heddiw. Yn ddiweddar bu i dŷ ffasiwn Alexander McQueen greu côt yn seiliedig ar y cwilt ar gyfer casgliad hydref/gaeaf '20:

Yn 2017 cafodd y cwilt ei arddangos yn Amgueddfa Wrecsam.
http://blog.courtauld.ac.uk/documentingfashion/2020/05/01/alexander-mcqueen-and-the-welsh-dress/

# GWEITHGAREDDAU

1. EDRYCHWCH AR Y CWILT. SAWL ANIFAIL GWAHANOL WELWCH CHI?



2. EDRYCHWCH AR Y CWILT, TROWCH ROWND A CHEISIWCH ENWI'R HOLL ANIFEILIAID A LLIWIAU. PWY FYDD YN ENNILL?!

3. DEFNYDDIWCH Y CWILT FEL YSBRYDOLIAETH I GREU EICH CAMPWAITH EICH HUN. RYDYM NI WEDI DEFNYDDIO PETHAU A GAWSOM NI HYD IDDYN NHW O GWMPAS Y TŶ, FEL DARNAU DUPLO, RHOLYN PAPUR TOILED A CHEIR BACH, I WNEUD PATRYMAU GWAHANOL.

4. CRËWCH EICH CWILT NEU'CH CAMPWAITH EICH HUN YN DEFNYDDIO UNRHYW DDEUNYDD NEU DDEFNYDD SYDD GENNYCH CHI AR GAEL - PAPUR, PAPUR SIDAN, CERDYN, PAENT, PENSILIAU LLIW AC ATI. BETH YDYCH CHI AM ROI AR EICH CWILT I'CH CYNRYCHIOLI CHI?



I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:
https://museum.wales/articles/2020-03-02/The-Wrexham-Tailors-Quilt-1842-52/
http://www.quiltfest.org.uk/wrexham-tailors-quilt.html